Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Astudiaeth achos ar sail arferion gorau

## Integreiddio TGCh

www.cymru.gov.uk

Ers bod yn un o'r ysgolion cyntaf yng Nghymru i groesawu apps ar-lein, mae **Ysgol Gyfun Olchfa** yn Abertawe wedi integreiddio TGCh ym mhob agwedd ar fywyd ysgol.

Mae dysgwyr a staff i gyd yn gallu cyrchu Google Apps cyffredin sy'n golygu gall dysgwyr gyflwyno gwaith yn syth o gartref, yn ogystal â gwirio eu cynnydd a'u presenoldeb ar-lein unrhyw bryd. Gall staff rannu nodiadau gwersi â dysgwyr ac arferion gorau ag athrawon eraill yn syth.

Defnyddir TGCh ar draws ystod eang o bynciau i wella dysgu ac ymchwil, a rhoi cyfle i'r dysgwyr gymryd mwy o ran yn y gwersi.

Mewn gwersi hanes, mae dysgwyr yn defnyddio technoleg i greu agwedd fwy cydweithredol at ymchwil yn yr ystafell ddosbarth.

Mae defnyddio Rhwydiaduron yn golygu bod modd rhoi'r dechnoleg yn nwylo'r dysgwyr yn eu hamgylchedd ystafell ddosbarth arferol, heb orfod symud i ystafell gyfrifiadura arbennig.

Mae mynediad cyffredin gan ddysgwyr i Google Presentation ac maen nhw'n ychwanegu eu casgliadau wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae fersiwn ohono hefyd yn cael ei daflunio ar y bwrdd gwyn ym mlaen y dosbarth, gan roi adborth syth gan gyfoedion ac athrawon.

Mae hyn wedi newid y ffordd maen nhw'n dysgu ac mae'n cynnig manteision di-ri gan gynnwys amrywiaeth ehangach o ffynonellau, athrawon yn gallu addasu ffocws y wers mewn ymateb i'r dysgwyr sydd yn ei dro yn annog dysgwyr i holi a thrafod yn fwy manwl.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnig TGAU mewn TGCh Galwedigaethol. Ar gyfer eu hasesiad dan reolaeth mae'r dysgwyr yn creu rhaglen i'r we. Bwriad y wers yw rhoi cyfle iddyn nhw ymarfer ac arbrofi â chyfres o sgiliau technegol newydd a byddan nhw'n mynd ymlaen i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn annibynnol yn eu hasesiad.

Mewn gwersi celf a cherddoriaeth mae dysgwyr yn gallu defnyddio caledwedd a meddalwedd Apple.

Defnyddir TGCh i gefnogi pob agwedd ar fywyd ysgol, ac mae Rhith-amgylchedd Dysgu Moodle wedi cael ei ddatblygu a'i integreiddio'n llwyddiannus â phorthol yr awdurdod lleol.

Enillodd Ysgol Gyfun Olchfa y BECTA ICT Mark yn 2010 am ei gwaith ar integreiddio technoleg ddigidol yn yr ystafell ddosbarth.

**Codi** Safonau Ysgolion
**Raising** School Standards

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2012
WG14988

Meddai Nick Francis, sydd wedi bod yn arwain datblygiad TGCh yn Olchfa:

**“Chwe blynedd yn ôl penderfynwyd ein bod ni am ganolbwyntio ar weithredu’r rhith-amgylchedd dysgu yn Olchfa. Ni oedd un o’r ysgolion cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu Google Apps ac erbyn hyn mae gan bob dysgwr ac aelod o staff gyfrif gyda mynediad i’r e-bost, calendr ac apps dogfennau.**

**Mae hyn yn golygu gall dysgwyr wirio eu cynnydd a’u presenoldeb eu hunain, ac mae hyn wedi rhoi mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb iddyn nhw dros fonitro a gwella cynnydd a phresenoldeb.”**

Yn ystod y gwersi, dywedodd Nick fod defnyddio TGCh wedi dod â llawer o fanteision i athrawon a dysgwyr gan gynnwys cyfathrebu gwell, mwy o annibyniaeth a chydweithio i’r dysgwyr, ac athrawon yn rhannu adnoddau. Dywedodd:

**“Gall athrawon greu adnoddau dysgu a gall dysgwyr gael mynediad i’r rhain bedwar awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos ac mae ‘gwaith cwrs anninistriol’ ganddyn nhw gellir eu lanlwytho cyn gynted ag y mae’r gwaith wedi’i orffen. Dim rhagor o esgusodion fel ‘mae’r ci wedi bwyta fy ngwaith cartref’!”**

Ychwanegodd fod y gwersi a’r athrawon yn gallu gweld manteision posibl TGCh yn syth ac mae wedi cael ei sefydlu ym mhob agwedd ar fywyd ysgol erbyn hyn.

Yn y dyfodol byddan nhw’n parhau i ddatblygu porthol yr ysgol, gan gynnwys cyfleuster mewngofnodi i rieni/gofalwyr a mwy o gydweithio ag ysgolion eraill.